

**Grŵp Cyngtori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru
Dydd Iau 24 Medi 2020 16:00-17:30**

Trwy Skype.

Cam gweithredu	Cyfrifol
Adroddiad yr Athro Emannelle Ogbonna ac ymateb ar gyfer y cyfarfod nesaf	Ysgrifenyddiaeth
Myfyrio ar bwyllgorau lleol ac ystyried y ffordd ymlaen	Heather
Marwolaethau anabledd oherwydd Covid - Ychwanegu at yr agenda nesaf. Gofynnwyd am bapur yn erbyn yr eitem hon ar yr agenda.	Rhian Davies

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Kathy Riddick, Martyn Jones, Alison Mawhinney, Helena Herklots, Kevin Francis, Lisa Dineen, Alison Parken, Ben Thomas, Shavanah Taj, Rhian Davies, Viv Harpwood

Nodyn o'r cyfarfod

Rhif	pwnc
1.	<u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u> Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nododd ymddiheuriadau.
2.	<u>Cofnodion blaenorol</u> Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r grŵp roi unrhyw sylwadau/diwygiadau ynghylch nodyn y cyfarfod diwethaf i'r Ysgrifenyddiaeth. Rhian Davies i'w chynnwys mewn ymddiheuriadau am gofnodion blaenorol. Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnal seminar ar 1 Hydref, yn ymchwilio i ffyrdd o weithredu'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar - 'Gadael neb ar ôl' - er mwyn sicrhau adferiad sy'n ystyriol o oedran yn sgil Covid-19. <u>Camau Gweithredu</u> Mae eitem Alison Mahwinney ynghylch materion digidol wedi'i gohirio tan y cyfarfod canlynol. Mae llawer o waith ym maes allgáu digidol ymhlith plant wedi'i wneud yn ddiweddar a gellir ei ystyried yr un mor bwysig â gofynion eraill i fyw. Mae Anabledd Cymru yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru ar faterion cynhwysiant digidol i bobl anabl.
3.	<u>Datblygu Cymorth ym maes Moeseg Glinigol ar gyfer gwneud penderfyniadau gofal iechyd yn Ymateb ac Adferiad Covid-19 yn GIG Cymru</u>

Amlinellwyd cynnig i ddatblygu pwyllgorau moesegol clinigol ac mae angen dull systematig o weithredu i sicrhau bod y dull o ymdrin â gofal iechyd yn deg.

Amlinellodd Dr Ben Thomas fod grŵp moesegol clinigol Gogledd Cymru wedi ystyried goblygiadau cyfreithiol darparu triniaeth. Mae'r elfen ymarferol hon wedi arwain at ymgysylltu uwch, gyda'u grŵp yn dyblu o ran ei faint yn ystod Covid. Mae'r math o ymholiadau a ddaeth i law yn cynnwys yn bennaf ymholiadau gweithdrefnol a chyfraith achosion, yn hytrach na'r ystyriaethau moesegol. Mae'r ymholiadau diweddar a ddaeth i law yn cynnwys PPE, ymweliadau ysbyty a chartrefi gofal a risg nosocomiaidd o ddal Covid mewn ysbytai. Mae grwpiau Hawliau Dynol wedi cael eu cynnwys yn lleol pan fo angen. Mae Covid wedi ehangu cwmpas yr ymholiadau a ddaeth i law. Gallai cadeiryddion moeseg glinigol lleol elwa o fynychu cyfarfodydd CMEAG Cymru ar brydiau gan fod ben wedi dysgu llawer o wneud hynny. Gallai'r grŵp hefyd sganio'r gorwel i lywio trafodaeth ehangach ar bynciau allweddol.

Credai'r Aelodau fod angen cynnwys persbectif lleyg, ond yn aml roedd yn anodd recriwtio aelodau lleyg. Yn benodol, mewn rhai rhannau o Gymru, bydd gan grwpiau crefyddol penodol gynrychiolaeth isel iawn.

Y cwestiwn o hyd yw sut i ymgorffori'r model meddygol cymdeithasol, nid dim ond cymhwyso'r arbenigedd meddygol. Mae iaith yn bwysig iawn ac mae'r diffiniad o "aelodau lleyg" yn allweddol. Mae'r mater yn fwy o "hawliau cymwysedig" ac sy'n meddu ar arbenigedd. Mae angen gweithio drwy graffu annibynnol ac mae angen i atebolrwydd y broses o wneud penderfyniadau gynnwys llais pobl. Mae hyfforddiant wedi gwella ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o safbwynt cydraddoldeb, ond gellid trosglwyddo arferion gwael o'r rhai nad ydynt mor hyddysg mewn materion cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae angen gwaith cefndir i helpu gydag elfen ymarferol y pwyllgorau moesegol clinigol. Awgrymwyd y gallai'r grŵp gydgyssylltu â chadeiryddion y pwyllgorau moeseg, eu holi am eu trefniadau presennol a gofyn pa broblemau y maent yn eu hwynebu, eu haelodaeth a'r awydd am safbwyntiau moesegol a moesol. Gallai ysbrydolrwydd a chymorth bugeiliol, crefyddol neu fel arall, lywio pwyllgorau o safbwynt moesegol ac ymarferol.

Yn ogystal, ystyrir bod hyfforddi a thalu cydweithwyr i sefydlu'r grwpiau hyn a rhannu'r lefel gywir o arbenigedd ymhlith y grwpiau hyn yn bwysig. Bydd agor y maes hwn er mwyn i'r cyhoedd graffu arno yn helpu i ddeall a gwneud penderfyniadau yn ogystal â thanlinellu materion ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Mae angen eglurder ar y grŵp ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni o ran craffu annibynnol a swyddogaethau cynghorau iechyd cymuned. Gallai fforwm Cymru gyfan ar gyfer materion strategol eang yn hytrach nag ailadrodd ymholiadau tebyg yn lleol helpu i lywio'r agenda hon, gan adael i bwyllgorau lleol edrych ar faterion lleol. Gallai pwyllgorau moesegol clinigol a allai fod yn lleol godi materion i CMEAG Cymru ar gyfer trafodaeth a sylwadau ehangach.

	<p>Crybwyllwyd cyngor Moesegol, a allai fod â swyddogaeth drosolwg a darparu persbectif, addysg a hyfforddiant a chymorth i amrywiaeth o bobl.</p> <p>Codwyd y cwestiwn ynghylch a fyddai pwyllgorau yn canolbwyntio yn unig ar y claf ac nid staff/gweithwyr hefyd? Os yr olaf byddai angen i hyn gysylltu'n ôl â hawliau staff. Mae gan y Prif Weinidog grŵp i ystyried y cynnydd mewn hiliaeth. Mae angen i'r grŵp hwn ystyried sut y gallwn ystyried hyn a chyfrannu.</p> <p>Cam gweithredu – cylchredeg adroddiad yr Athro Emannuelle Ogbonna ac ymateb Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cam gweithredu – Cynnwys adroddiad yr Athro Ogbonna ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cytunodd Heather i ystyried y pwyntiau hyn ac i nodi'r angen am bwyllgorau a'u swyddogaethau.</p>
4.	<p><u>Adolygu cyfeiriad CMEAG Cymru yn y dyfodol</u></p> <p>Mae'r eitemau y cytunwyd eu cynnwys mewn cyfarfodydd llawn yn cynnwys:</p> <p>Digidol Pobl anabl a'r gyfradd marwolaeth Materion hil Llywodraethu a chraffu ar Hawliau Dynol</p>
6.	<p><u>Unrhyw fater arall</u></p> <p>Lansiwyd yr ap yng Nghymru a Lloegr ar 24 Medi. Roedd dewis gwahanol ieithoedd yn cael ei ystyried yn anhawster ar unwaith.</p> <p>Mae canfyddiadau ONS yn dangos bod pobl anabl yn cyfrif am 59% o farwolaethau o Covid-19. Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cynnal ei adroddiad ei hun ar effaith Covid ar bobl anabl. Materion moesol a moesegol allweddol yma.</p> <p>Cam gweithredu – Ychwanegu at yr agenda nesaf. Gofynnir am bapur yn erbyn yr eitem hon ar yr agenda.</p> <p><u>Cyfarfod nesaf</u> Mewn pythefnos yn ôl y bwriad (24 Medi).</p>